WG35 1.142

# EHEDIADAU Y MEDDWL,

AR

YR ACHLYSUR O FARWOLAETH

Y PARCHEDIG

# DAFYDD PARRY,

## LLANWRTYD.

### SIR FRECHEINIOG.

Yr hwn a orphenodd ei yrfa,

EBRILL Y 27, 1821.

Yn 61, o'i Oed.

GAN JEFFREY DAVIES.

Canys Dafydd wedi iddo wasanaethu ei genhedlaeth ei hun trwy ewyllys Duw, a hunodd, ac a ddodwyd at eu dadau, ac a welodd lygredigaeth. Act. 13. 36.

TALGARTH:

Argraphwyd, gan Evan Hughes,

1821.

Y20 531278X

## EHEDIADAU Y MEDDWL, &c.

MAWR yw'r cwyno a'r galaru,
Sydd gan holl eglwysi Duw,
Am farwolaeth Dafydd Parry,
Fyddlon was i'r Iesu gwiw:
Fe fu'n ffyddlon yn llaw'r nefoedd
I gyhoeddi o hyd i ma's,
Ddyfnder calon dyn truenus,
Ac anfeidrol olud grâs.

2. Galwodd Duw ef yn ei ieuenctyd,
I ei dŷ, ac at ei waith,
I gyhoeddi grâs y nefoedd,
Tra bu yn yr anial maith;
Yn yr anial ca'dd ei gynnal,
Gan ei Dduw, a chan ei Dad,
I ryfeddu'r Ddwyfol gongcwest,
A rhinweddau mawr y gwa'd.

3. Gair y cymmod 'sodwyd ynddo,
Gweinidogaeth ga'dd gan Dduw,
I gyhoeddi a phregethu,
Mawr alluo'dd Iesu gwiw;
Dan arddeliad 'roedd bob amser,
Nes b'ai pawb yn dweud yn glir,
Fod y nefoedd fawr ei hunan,
Lawr yn gwlawio yno'n wir.

4 Fe fu'n teithio dê a gogledd,
Gan bregethu'r Iesu a'i hedd,

Yn ddigonol i bechadur,
Tu yma a thu draw i'r bedd;
Nes b'au tyrfa wrth ei glywed,
Yn anghofio pethau'r byd,
Ac yn gwaeddi am yr uwcha'
Dim i ni ond grâs i gyd.

5 Yn y Misol gyfarfodydd,
Parry ddodid yn y gwaith,
I bregethu 'fengyl Iesu,
Tra bu yma ar ei daith;
Yno gwnae i dyrfa farwedd,
Oerllyd sûd, yn llawn o dân,
Tyrfa feddal, wael ddifywyd,
Oll i seinio Dwyfol gân.

6 Yn yr Assosiasiwn hefyd,
Parry, fyddai'n siwr o fod,
Dros ei Feistr Crist yn bloeddio,
Dewch i roddi iddo'r clod
Am artaethu, galw, prynu,
Torf o dlodion fel nyni,
Trwy i'n hanwyl Iesu farw,
Dioddeu tywallt gwaed yn lli.

7 Ei athrawiaeth oedd yn fywyd,
Ac yn felus fel y gwin,
Fel chwenychai pawb a'i clywai,
Gael rhyw brawf o'r nefol rîn;
Pan y byddai yn pregethu,
Neu ar wedd'i o flaen Duw,
Fe ddisgynnai lawr fendithion,
Nes b'ai'n gwneud y marw'n fyw.

8 Fe fu'n seren, oleu, ddisglair,
Danllyd, danbaid dros ei Dduw,

Fel daeth llawer un i weled,
  Mawr ogoniant Iesu gwiw:
Dyma oedd ei ddiben pennaf,
  Dweud yn fawr am Iesu Grist,
Ei oludoedd, a'i drysorau,
  I eneidiau gwael a thrist.

9 Llawer canwaith y dywedodd,
  Diolch, diolch, diolch byth.
Am rinweddau'r Oen a'i glwyfau,
  Yno'r wyf am wneud fy nŷth;
Haleluia, Haleluia,
  Ydoedd rhai o'i eiriau ef,
Pan yr oedd yn rhydio'r afon,
  Myned tu a'r drydedd Nef.

10 Cafodd yn ei gorph gystuddiau,
  Fwy na's gallwn ddweud eu rhi,
Ynddynt, danynt 'roedd yn derbyn
  Maeth i'w enaid oddi fry;
Pan 'roedd golud y cyfammod,
  Anchwiliadwy gyfoeth Crist,
Yn ei feddwl, yn ei olwg,
  Byth ni byddai ef yn drist.

11 Er mor ffyddlon a defnyddiol,
  Oedd i holl eglwysi Duw,
Angeu gerwin ddaeth yn gennad
  I'w h'ol ef at Iesu gwiw,
Yno i wledda ar y manna
  Nefol Dwyfol, melus iawn,
Nad oes iddo drai na diwedd,
  Byth na bore na phrydnhawn.

12 Pan y daeth yn d'wysen aeddfed,
  Fe aeth adreu at ei Dad,

I gael canu byth heb dewi,
 Am ei olchi yn y gwa'd ;
'Tifedd oedd, ond daeth i'w oedran,
 I gael etifeddiaeth fwy
Nas gall Angel, Sant, na Seraph,
 Ddweud, er maint eu doniau hwy.

13 Yr oedd marw iddo'n enill,
 Ond i ni yn golled mawr
Colli un ag oedd mor ffyddlon
Gyd a Sion ar y llawr,
Elw oedd marwolaeth iddo,
 Canys mae yn llawer gwell
I fod gyd â'r Iefu anwyl,
 Draw yn nhrag'wyddoldeb pell.

14 Ymaith 'hedodd fel y fellten,
 Heibio i'r holl Blanedau fry,
Heibio Regulus, Georgium Sidus,
 Yn y wybren uchod fy,
Heibio Venus, Mars, a Vefperus,
 Trwy'r holl ehangderau mawr,
I ddedwyddwch nef y nefoedd,
 Cyn iddo roddi troed i lawr.

15 'Nawr 'rwy'n colli 'ngolwg arnat,
 'Dwy 'nabod dim o'th newydd wedd,
Gyd â'r Iefu a'i Angylion,
 'R ochor draw i byrth y bedd ;
Gan nad wyt fel un creadur,
 Welwyd mewn daearol fyd,
O ran agwedd, dull, a threfen,
 Etto Sylwedd wyt i gyd.

16 O mor hyfryd yw dy Anthem,
 Gyd â'r dyrfa hardd eu gwedd,

Sydd a'r palmwydd yn eu dwylaw,
Ac yn llawen yn y wledd ;
Rhai ſydd wedi rhoddi ffarwel,
Ffarwel gnawd, a ffarwel fyd,
Sŵn ganiadau hyfryd Sion,
Ydyw'r cyfan ſy'n dy fyd.

17 Ar dy ben mae Coron auredd,
Yn dy law balmwydden lâs,
Yn dy enau ganiad newydd
Am rinweddau Dwyfol râs ;
Gyd âg Abram, Iſaac, Jacob,
Yn mwynhau trag'wyddol wlêdd,
Yn oes oeſoedd ni bydd diwedd,
'R ochr draw i byrth y bedd.

18 Mrs Parry ei wraig anwyl,
A adawyd ar ei ol,
Ymgeledda ei henaid Arglwydd,
Yn dy fynwes gynes gôl ;
Arglwydd cofia'r hên addewid,
Iddi bydd yn Dduw a Thad,
Bugail, Blaenor, diddos noddfa,
Yn rhinweddau mawr y gwa'd.

19 Bydded iddi ymdawelu,
Dan alluog law ei Duw,
Fel Pen Arglwydd mawr y bydoedd,
A all ladd a chadw'n fyw ;
Bydded iddi fyned heibio,
Pob rhyw ddynion ar y llawr,
A gobeithio yn yr Arglwydd,
Bob rhyw ddydd a phob rhyw awr.

20 Sion, Sion, taer ymbilia,
Ar dy Arglwydd Dduw o'r Ne,

I anfon gweithwyr i'r cynhauaf,
Yn lle Parry, i lenwi ei le ;
Fel b'o adeiladu, a phlannu,
Dwfrhau eglwysi Duw,
Poen a llafur enaid Iesu,
Yn cael eu dwyn i'r nefoedd wiw.

21 Cofia Arglwydd, cofia Sion,
Anfon weision at dy waith,
Fyddo'n wrol ac yn ffyddlon,
Tra b'ont yn yr anial maith,
Bydded llwydd ar 'fengyl Iesu,
Trwy holl gonglau'r byd i gyd,
Fel na byddo gongl heb wybod,
Am rinweddau'r Aberth ddrud.

22 § Gosen, Naz'reth, a Bethesda,
Taer ymbiliwch ar Dduw'r ne,
Adel enwog ŵr Parchedig
*Evans*, yma yn ei le ;
Ac o leiaf Arglwydd grasol
Gâd ef Bymtheg blwyddyn lawn,
'Rhyn ga'dd Hezeciah dduwiol,
Cyn machludo'i haul brydnhawn.

23 Tithau Sion paid ag wylo,
Ac na chlywer mwy o'th lef,
Y mae *Parry* mewn perffeithiach
Lân gymdeithas, Saint y nef !
Y maent yno i gyd yn moli,
Y gwr fu farw ar y pren,
Ac yn canu Haleluia,
Clod i'r Iesu byth, Amen.

---

§ Enwau tri o Gapeli yn agos i gartref D. Parry:

Chwanegol goffadwriaeth am y Parchedig a'r Enwog *Dafydd Parry*.

Ei Oed pan ddechreuodd Bregethu, oedd 18.

Ei oedran pan fu Farw, oedd 61.

Yr amser y bu yn Pregethu, oedd 43.

Y dydd y bu farw, oedd Ebrill 27, 1821.

Y dydd y claddwyd ef, oedd Mai 1.

Pregethodd yn ei Gladdedigaeth:

Mr. William Harris, oddi wrth Phil. i, 23.

Parch. D. Williams, Llanwrtyd, oddi wrth 1 Cor. xv, 26

A'r Parch. E. Evans, Ffos, oddi wrth Dan. xii. 3.

---

Mae'r Seintiau yn diangc i'r gwynfyd,
I weled eu Harglwydd mewn hedd;
Maent yno yn moli, yn canu,
Am felus fendithion y wledd;
Maent yno yn nofio mewn cariad,
Heb blymio ei ddyfnder na'i hŷd,
Sef cariad anfeidrol y Duwdod,
At dlodion, ysgubion y byd.

DIWEDD.

RHYBYDD.

Pwy bynnag a Argrapho y Gân hon heb gennad yr Awdwr, gwybydded ei fod yn agored i gosb.